AMODAU ARBENNIG AR GYFER LLOGI CANOLFANNAU CYMUNEDOL SY'N AILAGOR YNG NGHYMRU YN YSTOD COVID-19

1 CYFLWYNIAD

1.1 Bydd y llogwr (“Chi”), yn gyfrifol am sicrhau bod pawb sy’n mynychu eich gweithgaredd yn cydymffurfio â’r amodau llogi arbennig hyn a fydd yn berthnasol hyd oni yr hysbysir yn wahanol yn ystod y Pandemig COVID-19 cyfredol.

1.2 Bydd unrhyw ddefnydd o safle a chyfleusterau’r ganolfan yn unol â’ch cydsyniad i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch eich mynychwyr a diogelwch y ganolfan.

1.3 Mae’r amodau llogi hyn yn ychwanegol at, ac nid yn gyfnewid am, yr amodau llogi arferol. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng unrhyw ofyniad yn yr amodau llogi arbennig hyn ac unrhyw ofyniad yn yr amodau llogi arferol, yr amodau llogi arbennig hyn fydd yn trechu.

1.4 Bydd yr amodau llogi arbennig hyn yn berthnasol ar bob adeg, gan gynnwys wrth fynd i mewn i’r ganolfan, bod yn y ganolfan ac wrth adael y ganolfan.

1.5 Bydd yr amodau llogi arbennig hyn yn cael eu hadolygu’n gyson a’u diwygio a’u hailgyflwyno yn ôl yr angen.

1.6 Mae’n rhaid i’r amodau llogi arbennig hyn gael eu llofnodi, a rhaid dychwelyd copi cyn y gallwch ddefnyddio’r ganolfan.

2 DOGFENNAETH ALLWEDDOL

2.1 Mae’n rhaid i chi gydymffurfio ag asesiad risg Coronafeirws penodol y ganolfan, sydd wedi ei gyflwyno i chi. Mae’n rhaid i chi hefyd sicrhau bod y rheini sy’n mynychu eich gweithgaredd wedi cael copi cyn iddynt ddod i’r ganolfan.

2.2 Mae’n rhaid i chi gwblhau a llunio eich asesiad risg Coronafeirws penodol eich hun o’r gweithgaredd yr ydych chi’n dymuno ei drefnu. Mae’n rhaid i chi anfon yr asesiad risg hwn i’r ganolfan 7 diwrnod cyn dyddiad y gweithgaredd arfaethedig.

2.3 Mae’n rhaid i chi gadw cofnod o enw a rhif ffôn neu e-bost cysylltu'r holl rai hynny sy’n mynychu eich gweithgaredd am gyfnod o 3 wythnos ar ôl y digwyddiad a chyflwyno’r cofnod i wasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru os bydd angen.

2.4 Dylech chi a’r rheini sy’n mynychu eich gweithgaredd wneud defnydd o boster QR y GIG a fydd yn cael ei arddangos wrth y fynedfa i’r ganolfan. (Ap COVID-19 y GIG)

3 DOD I MEWN/GADAEL

3.1 Cyn i'r rheini sy'n mynychu eich gweithgaredd ddod i mewn i'r ganolfan, mae'n rhaid i chi ofyn iddynt a ydynt hwy, neu unrhyw un yn eu cartref, wedi cael unrhyw symptomau COVID-19 neu wedi dychwelyd yn ddiweddar o wlad lle y mae gofyn i chi hunanynysu ar hyn o bryd. Os felly, mae'n rhaid i chi wrthod mynediad i'r unigolion hyn.

3.2 Mae'n rhaid i chi a'r rheini sy'n mynychu eich gweithgaredd ddefnyddio'r pwyntiau ymadael a chyrraedd a nodwyd a chadw at y system un ffordd sydd wedi ei rhoi ar waith yn y ganolfan.

3.3 Mae'n rhaid i chi a'r rheini sy'n mynychu eich gweithgaredd ddefnyddio'r hylif diheintio dwylo a ddarperir wrth ddod i mewn i'r ganolfan a'i gadael.

3.4 Rydych chi'n cytuno i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o 2 medr rhwng pob unigolion pan fydd angen iddynt aros i ddod i mewn i'r ganolfan, ac eithrio pan fydd yr unigolion o'r un aelwyd, neu'n ofalwr a'r sawl sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr.

3.5 Dylech gynghori'r rheini sy'n mynychu eich gweithgaredd i beidio â chyrraedd mwy na 5 munud yn gynnar, a phan fydd y gweithgaredd wedi dod i ben, sicrhau eu bod yn gadael y ganolfan mor gyflym â phosibl gan ddefnyddio'r system un ffordd.

4 GWEITHGAREDD/DIGWYDDIAD

4.1 Byddwch chi'n sicrhau bod nifer y bobl sy'n mynychu eich gweithgaredd yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol y Llywodraeth, er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol.

4.2 Byddwch chi'n gyfrifol am sicrhau bod y rheini sy'n mynychu eich gweithgaredd yn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol a arddangosir drwy arwyddion ym mhob rhan o'r ganolfan.

4.3 Rydych chi'n cytuno i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o 2 fedr rhwng pob unigolyn wrth iddo ddefnyddio'r ganolfan, ac eithrio pan fydd yr unigolion o'r un aelwyd, neu'n ofalwr a'r sawl sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr.

4.4 Byddwch chi'n cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddal y feirws, yn benodol, drwy ryngweithio cyn lleied â phosibl wyneb yn wyneb a thrwy wella hylendid.

4.5 Ni chaniateir yfed alcohol yn y gweithgaredd.

5 POBL SY'N AGORED I NIWED

5.1 Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol o unrhyw fynychwyr sy'n debygol o fod yn fwy agored i COVID-19 yn glinigol, gan gynnwys cadw pellter o 2 fedr o'u hamgylch wrth symud drwy'r ganolfan.

5.2 Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr holl fynychwyr yn cael cyfle i ddweud eu bod yn debygol o fod yn fwy agored i COVID-19 yn glinigol cyn iddynt gyrraedd y ganolfan. Yn ddelfrydol, bydd hyn yn ffurfio rhan o'ch asesiad risg Coronafeirws penodol.

6 GORCHUDDION WYNEB

6.1 Yn unol â rheoliadau diweddaraf y Llywodraeth, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod pawb sy'n mynychu eich gweithgaredd yn gwisgo gorchudd wyneb, oni bai bod eithriad neu ganllaw arall gan y llywodraeth yn berthnasol i'r gweithgaredd.

6.2 Mae'n rhaid gwisgo'r gorchudd wyneb cyn mynd i mewn i'r ganolfan ac ni cheir ei ddiosg hyd oni y bydd yr unigolyn wedi gadael y ganolfan.

7 AWYRU

7.1 Byddwch chi'n cadw'r ganolfan wedi ei hawyru'n dda drwy gydol eich cyfnod llogi, gan gadw ffenestri a drysau ar agor i'r graddau gofynnol, gan ystyried diogelwch a diogelu pobl ifanc.

7.2 Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ffenestri a drysau wedi eu cau'n dynn cyn gadael.

7.3 Mae'n rhaid cadw drysau tân ar gau.

8 CAU/CANSLO

8.1 Mae pandemig COVID-19 yn parhau i ddatblygu'n gyflym ac mae cyngor y llywodraeth a'i mesurau i ddiogelu'r cyhoedd a rheoli'r effaith ar y Wlad yn newid yn aml. Felly, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni gau'r ganolfan yn annisgwyl ac ar unwaith yn sgil cyfyngiadau Llywodraethol penodol.

8.2 Mewn achos o gau/ganslo, mae'n bosibl y byddwn ni'n cynnig dyddiad arall i chi ar gyfer y gweithgaredd, ond os na ellir dod i gytundeb ar hyn, ystyrir bod yr archeb wedi ei chanslo a bydd unrhyw flaendal yn cael ei ddychwelyd yn llawn heb ofyniad am daliad pellach.

8.3 Rydych chi'n cydnabod ein bod yn cadw'r hawl ar bob adeg i gau'r ganolfan os bydd rhywun sy'n defnyddio'r ganolfan yn datblygu symptomau COVID-19 a bod angen

glanhau'r ganolfan yn drylwyr o ganlyniad i hyn; neu os yr adroddiad nad yw'r Amodau llogi Arbennig hyn yn cael eu dilyn, boed hynny gennych chi neu gan ddefnyddwyr eraill.

Adolygwyd Mehefin 2021 mewn ymateb i Bandemig Covid-19

.....

Deallaf yr Amodau Arbennig a osodwyd o fewn y ddogfen hon a chytunaf i gadw at y telerau.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Enw: _____